# Rheoli cyfranwyr yn ystod cynyrchiadau

## Trosolwg

Mae'r Safon hon yn ymwneud â chyfarch a chyfarwyddo cyfranwyr cyn recordio cynhyrchiad. Bydd angen eu cefnogi fel sy'n briodol a'u hebrwng o stiwdios neu leoliadau unwaith y byddan nhw wedi gorffen.

Mae'n ymwneud â pharatoi ar gyfer cyfweliadau, monitro eu safon a gwirio'u cynnwys yn erbyn y polisi golygyddol a chyfarwyddyd y cynyrchiad.

Bydd angen ichi lunio a chadw nodiadau cynhwysfawr lle'n briodol.

Mae'r Safon hon yn arbennig ar gyfer y rheiny sy'n gweithio yn y tîm rheoli cynyrchiadau.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. adnabod a chyfarch cyfranwyr gan eu cyflwyno i'r gweithwyr cynhyrchu perthnasol
2. bodloni unrhyw ofynion o ran mynediad neu anghenion arbennig y cyfranwyr yn unol â gweithdrefnau cyfundrefnol
3. cynnig gwybodaeth eglur i gyfranwyr ynghylch unrhyw ymarferion neu reoliadau stiwdios neu leoliadau sy'n berthnasol iddyn nhw
4. gofalu am gyfranwyr pan fyddwch ar leoliad neu yn y stiwdio yn unol â gofynion y cynhyrchiad
5. cynnig gwybodaeth eglur i gyfranwyr am eu disgwyliadau ynghyd â gwybodaeth am unrhyw newidiadau i'r drefn wreiddiol, amseriad neu gynnwys mewn digon o amser iddyn nhw fedru addasu
6. datblygu cynllun cyfweld cywir i fodloni gofynion
7. cyfarwyddo cyflwynwyr neu holwyr ynghylch perfformiad y cyfrannwr neu ddiben cyfweliadau ar adegau priodol
8. llunio cofnod cywir o gwestiynau ac atebion, gyda'r amseriadau pan fo'n briodol
9. monitro ansawdd cyfweliadau perfformwyr, gwirio cynnwys yn erbyn y polisi golygyddol a chyfarwyddyd y cynhyrchiad, yn ogystal ag awgrymu newidiadau neu welliannau
10. derbyn ffurflenni rhyddhau neu ganiatâd gan gyfranwyr a phan fo'n briodol, eu stori yn unol â'r gofynion rheoleiddiol a chyfundrefnol
11. bwrw golwg ar drefniadau teithio a thaliadau'r cyfrannwr yn unol â gofynion y cynhyrchiad
12. hebrwng cyfranwyr o stiwdios neu leoliadau pan fyddan nhw wedi cwblhau eu gwaith yn unol â gofynion y cynhyrchiad

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. pwy ydy'r cyfranwyr a'r trefniadau ynghlwm â chydweithio gyda nhw
2. pam ei bod hi'n bwysig trin cyfranwyr yn gwrtais
3. gofynion o ran mynediad ac anghenion arbennig y cyfranwyr sydd angen eu hystyried
4. pa ymarferion stiwdios neu leoliadau sydd angen i'r cyfranwyr fod yn ymwybodol ohonyn nhw
5. cyfarwyddyd y cynhyrchiad a'r polisïau golygyddol
6. cwmpas y wybodaeth cyfarwyddo i'w rhannu gyda chyfranwyr a sut gall hyn amrywio gyda gwahanol gynyrchiadau
7. sut i drin cyfranwyr gyda gwahanol gymeriadau ac ysbryd yn effeithiol ac yn sensitif
8. y ddyletswydd gofal tuag at gyfranwyr
9. sut i fonitro cyfweliadau a pherfformiadau ynghyd â chydnabod arwyddion o orfodaeth
10. sut i awgrymu newidiadau a gwelliannau mewn ffordd sensitif i'r cyfrannwr a'r holwr
11. sut a phryd i dderbyn ffurflenni caniatâd neu ryddhau
12. sut i dderbyn awdurdod i ddefnyddio'r deunydd ar aml-lwyfannau ac ar amryw adegau e.e. ailadroddiadau
13. goblygiadau deddfwriaeth a rheoliadau cyfredol yn ymwneud â Diogelu Data
14. sut i wneud taliadau i gyfranwyr
15. sut i hebrwng cyfranwyr o'r stiwdio neu o leoliadau pan fyddan nhw wedi cwblhau eu gwaith

Rheoli cyfranwyr yn ystod cynyrchiadau

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | ScreenSkills |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Maw 2019 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 30 Maw 2022 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | ScreenSkills |
| **RCU gwreiddiol** | SKSP22 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Celfyddydau, Cyfryngau a Chyhoeddi, Rheolwyr Cynhyrchu, Cydlynydd Cynhyrchu |
| **Cyfres/Set** | Cynhyrchu (Ffilm a Theledu) |
| **Geiriau Allweddol** | Teledu, Ffilm, Cynhyrchiad, Cyfranwyr |